oblegyd dywedir wrthym i un o honynt ddyfod ato yn ddirgelaidd "liw nos," a'r llall yn "guddiedig rhag ofn yr Iuddewon." Yn yr un Efengyl (xvi. 19), mae'r Iesu yn dywedyd wrth Pedr, "A rhoddaf i ti agoriadau teyrnas nefoedd," &c. A ydym i ddeall oddiwrth hyn fod yr apostol ofnus hwn wedi cael awdurdod i ollwng i mewn i blith "ysprydoedd y cyfiawn y rhai a sancteiddiwyd" y sawl a fynai, ac o'r tu arall i gauad allan y sawl a fynai? Na, diolch i Dduw, ni feddai Pedr yr awdurdod hon, na neb arall ysprydoledig nac anysprydoledig, ac ni fedd neb mo honi hyd y dydd hwn. Trwy gadw'r gorchymynion y mae i ni gael myned i mewn i'r bywyd, a chael rhan o etifeddiaeth y saint yn y goleuni. Yn y geiriau hyn, sydd wedi peri cryn drwbwl meddwl i lawer, nid oedd ein Hiachawdwr yn meddwl dim rhagor nag y byddai iddo roddi awdurdod i Pedr i ollwng i mewn i'r Eglwys Gristionogol, o blith yr Iuddewon ac o blith y Cenedloedd, bawb a fyddai yn deilwng o'r cyfryw anrhydedd, ac o'r tu arall i gauad allan o honi bawb a fyddai yn annheilwng o hono. Y mae un *passage* hynod arall yn yr un Efengyl at yr hwn y dymunwn alw sylw y darllenydd (xi. 12): "Ac o ddyddiau Ioan Fedyddiwr hyd yn awr, yr ydys yn treisio teyrnas nefoedd, a threiswyr sydd yn ei chipio hi." A ydyw Crist, yn y geiriau cryfion hyn, yn golygu dweyd fod dynion mewn gwirionedd, trwy orthrech neu drais, yn cymmeryd meddiant o'r nefol wlad? Na, nid felly. Nid yw Crist yn meddwl ond yn unig fod dynion, oddiar pan ddechreuodd Ioan Fedyddiwr gymhell y bobl i edifarhau ac ymbarodi i dderbyn yr Efengyl hyd y pryd hwnw, yn dyfod i mewn i'r Eglwys Gristionogol yn lluoedd, ac y mae yn crybwyll y ffaith hon yn nghlywedigaeth dysgyblion Ioan, gyda'r dyben iddynt hwy, wedi dychwelyd at eu meistr, ddywedyd wrtho y newydd dymunol fod Cristionogaeth yn myned rhag ei blaen yn dra llwyddianus. Cofier gan hyny fod yr ymadrodd "teyrnas nefoedd," tra yn achlysurol yn sefyll am drigfod y cyfiawnion mewn byd dyfodol, yn fwyaf cyffredin yn arwyddo Cristionogaeth neu oruchwyliaeth yr Efengyl; a phan y byddo'r darllenydd yn cwrdd â'r ymadrodd, bydded iddo arfer ei synwyr i benderfynu yn mha ystyr y mae iddo i'w gymmeryd.

4. Y mae y gair "addoli" etto yn un y rhoddir iddo ystyr anmhriodol yn aml iawn. Wrth addoli, mae dynion yn gyffredin yn deall yr un peth a "gweddio," a gwir fod gweddi yn rhan o addoliad crefyddol; ond dylid cofio fod addoliad yn fynych yn yr Ysgrythyrau yn dynodi "parch" ac "edmygedd gwladol," a'i fod yn fynych yn cael ei roi, nid yn unig i Grist, ond i freninoedd, prophwydi, a dynion o awdurdod ac enwogrwydd. Pan yr ydym yn darllen yn y Beibl am addoliad yn cael ei roi i ddynion, nid addoliad crefyddol sydd i'w ddeall, ond addoliad yn yr ystyr o barch a gwarogaeth, y fath ag a dalai is-raddolion i'w blaenoriaid. Pan ant ar draws ymadrodd lle y sonir am addoliad i Grist, cred y mwyafrif eu bod wedi cael allan brawf diymwad o'i dduwdod, heb ystyried dim fod yr un addoliad ag a delid iddo Ef wedi cael ei dalu hefyd gan Nebuchodonosor i Daniel, gan ryw was i'w arglwydd, a chan Cornelius i Pedr. Gellid gosod ger bron amryw

enghreifftiau yn ychwaneg, ond bydded hynyna yn ddigon yn bresenol. Bydd ein duwiau yn lluosog os yw addoliad neu ymgrymiad i unrhyw berson yn brawf o dduwdod y cyfryw.

Ond gofyn rhywun yn naturiol ddigon, os yw y gair "addoli" yn cael ei arfer mewn rhagor nag un ystyr yn yr Ysgrythyrau, pa fodd mae gwybod pa un ai "parch gwladol" ai "addoliad crefyddol" sydd i'w ddeall? Nis gall y darllenydd annysgedig wneuthur dim yn well nâ gosod ei ddeall ar waith i ystyried y cyssylltiad yn mha un y mae'r gair yn sefyll, ac ymdrechu gwybod pa beth mae'r ysgrifenydd yn amcanu ato; ond gall y sawl sydd yn gyfarwydd â'r iaith Roeg, ac yn ewyllysio cael allan y gwironedd, benderfynu'r pwnc yn ddigon rhwydd, oblegyd yn yr iaith wreiddiol nid yr un gair a arferir am wasanaeth crefyddol ag a arferir am edmygedd gwladol.

Aineo, neu *latreuo*, sydd yn sefyll am addoliad yn yr ystyr uwchaf, sef yr ystyr grefyddol, ac nid yw'r geiriau byth yn cael eu cymhwyso at Grist—dim ond i'r tragwyddol Un yn unig; ond pan y mae addoliad mewn ystyr îs yn cael ei olygu, *proskuneo* yw'r gair a arferir; hyny yw, ymgrymu, talu gwarogaeth, ac y mae yn cael ei gymhwyso at Grist yn aml, ac at ddynion mewn awdurdod. Os yw Crist, gan hyny, yn wrthddrych addoliad crefyddol, fel y mae y rhan amlaf o Gristionogion yn credu, pa fodd mae'n hapio nad yw'r geiriau hyny sydd yn dynodi'r cyfryw addoliad byth yn cael eu cymhwyso at Iesu Grist, ond at y Tad yn unig? Nid wyf yn gwybod fod neb wedi beiddio ateb y gofyniad hwn erioed, ac hyd nes ei atebir, ni ddylai Cristionogion addoli Crist heb amheu a phetruso cryn lawer.

J. M.

GWYDDOR *Versus* Y BEIBL.

Ac velnti ingentem formical farris acervum
Cum populant, hyemis memores, tectoque reponunt.
Virg. Aen. iv., 402.

Sicut
Parvula (nam exemplo est) magni formica laborio
Ore trahit quodcumque potest, atque addit acervo
Quem struit, haud ignora ac non incanta futuri.
Hor. Sat. I., i. 32.

Peth cyffredin iawn yn y dyddiau presenol yw dwyn Gwyddor a'r Beibl i wrthdarawiad â'u gilydd, pan y dylent mewn gwirionedd gael eu cymmeryd y naill yn llawforwyn i'r llall. Y mae eisiau i'n duwinyddion fod ychydig yn llai sectarol, llai drwgdybus, llai anffaeleg yn eu tyb eu hunain; ac y mae eisiau i'n *scientific men* fod hefyd ychydig yn llai penderfynol, a llai brysiog yn eu casgliadau. Y mae

llawer iawn o son am resymeg yn y byd, a llawer o fyfyrio arno; ond wedi'r cwbl, ceir llawer iawn o wall-resymeg yn aros. Beth ddywedid am ymrwymiad fel hwn:—Ni welais i frithyll erioed yn y Towy, y Tawe, na'r Taf; am hyny, nid oes yno ddim brithyllod. Nid yw'r casgliad yn deg; etto gwneir casgliadau cyffelyb yn fynych gan ein hathrawon cyhoeddus. Haerant nad yw, nad all peth fod yn wir, am nad ydynt hwy erioed wedi ei weled. Y mae Solomon wedi cynghori'r diogyn i fyned at y morgrugyn, a dysgu ei ffyrdd ef, a bod yn ddoeth; gan ychwanegu fod y morgrugyn yn darparu lluniaeth yr haf erbyn y gauaf. Nid Solomon yw'r unig awdwr o'r hen amser sydd wedi awgrymu fod y morgrugyn felly yn darparu lluniaeth: y mae rhai awdwyr Groeg a Lladin yn gwneuthur yr un peth. Ond yn ngwyneb hyn oll, haeriad parhaus naturiaethwyr diweddar yw, nad yw morgrug yn gwneuthur dim o'r fath beth. Ni welodd Huber, Gould, Kirby, Spence, na Frederick Smith, hwy yn gwneuthur hyny; am hyny, nid ydynt yn gwneuthur hyny, ac ni welodd Solomon hwy yn gwneuthur hyny. Y mae dau wall resymeg yma:—(1) Nid ydynt am nad ydynt hwy wedi eu gweled. (2) Am nad ydynt yma, nad ydynt mewn un wlad arall. Ond y gwir yw fod y morgrug yn gwneuthur hyny yn awr, os nad yma, etto mewn rhai manau; a thebyg yw ei bod yn gwneuthur hyny yn amser Solomon. Nid yw natur a greddf pob creadur, fodd bynag, yn aros yr un yn mhob hinsawdd a gwlad. Y mae iddynt raddau o allu i ymgyfaddasu at angenion eu sefyllfa. Cawn y gwenyn yma yn darparu yr haf erbyn y gauaf; ond mewn rhai gwledydd nid ydynt yn gwneuthur dim o'r fath beth—nid oes angen iddynt. Mewn llyfr newydd yn dwyn yr enw "*Harvesting Ants and Trap-door Spiders*," gan J. T. Moggridge, yr ydym yn cael digon o brofion o wirionedd awgrymiad Solomon. Y mae efe wedi eu gweled, wedi hir wylied eu symmudiadau, ac wedi croniclo yr hyn a welodd yn y llyfr hwn.* Pan yn Mentone, yn Hydref, 1871, y dechreuodd ei ymchwiliadau. Trodd i fyny eu hysguboriau, a sylwodd ar y gwahanol fathau o hâd oedd yno. Gwnaeth brawfiadau hefyd trwy wasgarhad ar hyd eu llwybrau. Gwelodd hwy yn eu casglu a'u cario i'w hysguboriau. Twyllodd haid o honynt un tro â *porcelain beads*, ond cawsant allan eu camsynied yn o fuan. Gwelodd hwy yn fynych yn dwyn yr hâd allan i'r haul i sychu, ac wedi hyny yn dychwelyd â hwy drachefn i'w lle. Nid oes dim ammheuaeth yn meddwl yr awdwr hwn nad ydynt yn bwyta'r hâd. Dywed hefyd eu bod yn ddychrynllyd o ymladdgar. Gwelodd frwydr unwaith a barhaodd am fisoedd, a darfu iddo actio fel *special correspondent*. Dydd ar ol dydd ymwelodd â'r fan; yr oedd brwydr boeth yn myned yn mlaen, a chyrff y meirw yn cuddio'r maes. Ar ol buddugoliaeth drwyadl y naill, ac yspeiliad o ysguboriau y llall, dygwyd y frwydr i ben. Y mae hanes y frwydr yma yn peri i mi gredu'r possiblrwydd fod mwy na barddoniaeth yn narluniad Virgil o frwydr y gwenwyn. (Georg. iv. 67.)—X.Y.Z.

* Mae naturiaethwyr America yn hyspys o'r ffaith o'r blaen, ac y mae un trafaelwr yn adrodd am sach gyfan o *maize* wedi ei harllwys ganddynt mewn un noswaith.

Y CREFYDDAU ETHNIG.

(*Parhad o'r rhifyn diweddaf, tud.* 114.)

Carwn yn fawr pe gallasem gydchwilio i mewn yn yr yspryd hwn i'r hen grefyddau, oblegyd yr wyf yn teimlo yn argyhoeddedig mae pa fwyaf yr ydym yn wybod am danynt, y mwyaf eglur y gallwn weled nad oes un o honynt yn hollol gyfeiliornus—fod hyd y nod pob crefydd yn wir grefydd, gan ei bod yr unig grefydd ag oedd yn bossibl ar yr amser, yr unig un ag oedd yn gydfynedol ag iaith, meddyliau, a theimladau y genedl, ac yn cyfatteb i'r oes hono o'r byd. Yr wyf yn gwybod yn eithaf da y gwrthddadleuon ydynt yn ymgynnyg yn erbyn y syniad yma. A oedd addoliad Moloch, fe ddywedir, yn wir grefydd pan oedd dynion yn llosgi eu plant yn y tân i'w duwiau? A oedd addoliad Mylitta, neu addoliad Kâlî yn wir grefydd, pan oeddent yn cyflawni tufewn i gyssegr eu temlau, halogedigaethau nad yw yn weddaidd eu crybwyll? A oedd athrawiaeth Buddha yn wir grefydd, pan y gofynid i ddynion i gredu fod gwobr uwchaf rhinwedd a myfyrdod yn gynnwysedig yn niddymiad hollol yr enaid? Gall gwrthddadleuon o'r fath yma lwyddo mewn ymrysonau rhwng gwahanol bleidiau, er hyd y nod pryd hyny, maent wedi cyffroi ad-daliad ofnadwy. A all hono fod yn wir grefydd, attebir, sydd wedi traddodi dynion o ddiniweidrwydd sanctaidd i'r fflamiau, oblegyd eu bod yn dal fod y Mab yn debyg i'r Tad, ond nid yr un a'r Tad, neu am na allasent addoli y Forwyn a'r Seintiau? A all hono fod yn wir grefydd sydd wedi noddi yr un halogedigaethau nas gellir eu henwi, tufewn i furiau cyssegredig mynachlogydd? A all hono fod yn wir grefydd sydd yn dysgu cosp dragwyddol heb un gobaith am faddeuant, neu iachawdwriaeth i'r pechadur, pa mor edifeiriol bynag y byddo?

Ni ddaw dynion sydd yn barnu crefyddau yn yr yspryd yma byth i ddeall eu gwir ystyr, byth i gyrhaedd eu ffynonellau cyssegredig. Nid yw y pethau hyn ond gordyfiantau (*excrescences*) a gordyfiantau anocheladwy pob crefydd. Byddai cystal i ni ffurfio barn am iechyd cenedl oddiwrth ei meddygdai, neu am ei moesoldeb oddiwrth ei charcharau. Os ydym ni am ffurfio barn am unrhyw grefydd, mae'n rhaid i ni ymdrechu ei hastudio mor belled ag mae yn bossibl yn meddwl ei sylfaenydd; a phan mae hyny yn anmhossibl, fel ag y mae yn rhy fynych, mae'n rhaid i ni ymdrechu ei chael allan wrth weled ei dylanwad yn y cartref neillduedig ac yn ystafell cystudd, yn hytrach nâg yn ngholegau dewiniaid a chynghorau offeiriaid.

Os gwnawn ni hyn, ac os cofiwn ni fod yn rhaid i grefydd i addasu ei hun ar gyfer cymhwysderau y rhai mae i'w dylanwadu, yna byddwn yn synu wrth weled cymmaint o wir grefydd yn bodoli lle nad oeddem yn dysgwyl ond coelgrefydd lygredig ac addoliad gwrthun eilunod.

Mae amcan crefydd, lle bynag y cyfarfyddwn â hi, bob amser yn sanctaidd. Pa mor anmherffaith a phlentynaidd bynag y gall crefydd

fod, mae bob amser yn gosod yr enaid dynol yn mhresenoldeb Duw; a pha mor anmherffaith a phlentynaidd bynag y byddo y syniad am Dduw, mae bob amser yn gosod allan y syniad uwchaf am berffeithrwydd, all yr enaid dynol gyrhaedd a gafaelyd ynddo ar y pryd. Mae crefydd yn gosod yr enaid dynol yn mhresenoldeb ei *ideal* uwchaf, ac mae yn ei godi i fyny uwchlaw safon daioni cyffredin, ac mae'n cynnyrchu o leiaf hiraeth am fywyd uwch a gwell, am fywyd yn ngoleuni Duw. Nis gellir amheu nad yw y ffurf yn yr hon y gosodir allan yr amlygiadau boreu yma o deimlad crefyddol, yn aml yn blentynaidd; gall fod yn anmharchus, ac hyd y nod yn wrthun. Ond a ydyw pob tad ddim yn dysgu gwers sydd yn peri iddo farnu mewn tynerwch pan mae'n gwylied acenion cyntaf annghroyw crefydd yn ei blant? Paham, gan hyny, dylai pobl deimlo anhawsder i ddysgu yr un wers yn hen hanes y byd, ac i farnu yn yr un yspryd barabl crefyddol plentyndod dynoliaeth? Pwy nad yw yn cofio am ofyniadau cyffrous, ac i bob ymddangosiad, anmharchus plant yn nghylch Duw? A phwy nad yw yn gwybod mor berffaith ddieuog ydyw meddwl y plentyn o bob teimlad anmharchus. Crybwyllaf un enghraifft. Yr wyf yn cofio yn dda am yr arswyd a achoswyd unwaith gan blentyn wrth ddweyd, —"O, fe leiciwn pe byddai un *room* yn y ty lle y gallwn chwareu wrthyf fy hun, a lle nis gallai Duw fy ngweled." Yr oedd y rhai a'i clywent yn arswydo wrth y fath syniad; ond i'm meddwl i, yr wyf yn addef fod y dywediad yn swnio yn fwy gwirioneddol a rhyfeddol nag hyd y nod Salm Dafydd,—"I ba le yr âf oddiwrth dy yspryd, ac i ba le y ffoaf o'th wydd?"

Mae yr un fath gyda iaith blentynaidd yr hen grefyddau. Yr ydym ni yn dweyd yn dawel iawn fod Duw yn holl-bresenol ac yn hollwybodol. Mae Hesiod (hen fardd Groegaidd) yn siarad am yr haul fel llygad Zeus, sydd yn gweled ac yn canfod pob peth. Mae Aratus yn ysgrifenu,—"Llawn o Zeus yw yr holl heolydd a holl farchnadleoedd dynion; llawn o hono ef yw y mor a'r porthladdoedd * * a'i hiliogaeth ef ydym ni." Mae bardd Vedaidd, er mewn amser diweddarach nâ'r un a grybwyllais o'r blaen, wrth lefaru am yr un duw, sef Varuna, yn dweyd,—"Mae arglwydd y bydoedd hyn yn gweled fel pe buasai yn agos. Os meddylia dyn ei fod yn rhodio yn lladradaidd, mae y duwiau yn gwybod y cwbl. Os yw dyn yn sefyll, yn rhodio, neu yn gyru, os yw yn myned i orwedd i lawr, neu i godi fyny; os bydd dau yn sisial—un yn nghlust y llall, mae y brenin Varuna yn gwybod,—mae efe yno yn drydydd. Mae y ddaear yma hefyd yn perthyn i Varuna y brenin, a'r ffurfafen eang yma gyda'i therfynau yn mhell oddiwrth eu gilydd. Y ddau fôr (y ffurfafen a'r cefnfor) ydynt lwynau Varuna; mae efe hefyd yn gynnwysedig yn y dyferyn bychan yma o ddwfr. Pe byddai dyn yn gallu ffoi yn mhell tuhwnt i'r ffurfafen, ni lwyddai i gael gwared ar Varuna y brenin. Mae ei yspiwyr ef yn myned o'r nefoedd i'r byd hwn; maent yn edrych ar y ddaear yma gyda mil o lygaid. Mae y brenin Varuna yn gweled y cwbl, yr hyn sydd rhwng nefoedd a'r ddaear, a'r hyn sydd tuhwnt iddynt."

Nid wyf yn gwadu nad oes yn yr hymn hon lawer ag sydd yn blentynaidd—ei bod yn cynnwys pethau annheilwng o fawredd y Duwdod; ond pan wyf yn edrych ar iaith a meddyliau y bobl a gyfansoddodd yr hymnau hyn er ys rhagor nâ thair mil o flynyddoedd yn ol, yr wyf yn rhyfeddu mwy at yr amlygiad happus a phur maent wedi rhoddi o'r meddyliau dyfnion hyn, nâg at y syniadau achlysurol sydd yn annghytuno â'n teimladau ni.

Dyma eiriau Hindw* wedi ei droi at Gristionogaeth, pan yr aeth yn ol i India i bregethu yr Efengyl,—"Yn awr, nid wyf yn myned i India i niweidio teimladau y bobl, trwy ddweyd 'Mae eich ysgrythyrau i gyd yn *nonsense*; nid oes un peth tu allan i'r Hen Destament a'r Newydd yn dda i ddim.' Na, yn hytrach, mi appeliaf at athronwyr, moes-ddysgawdwyr, a beirdd Hindwaidd, gan ddwyn ar yr un pryd iddynt fy ngoleuni i, ac ymresymu â hwynt yn yspryd Crist. Dyna fydd fy ngwaith. Mae genym ddywediadau o'r natur yma,—'Bydd yr hwn sydd yn dymuno bod y mwyaf y lleiaf.' Nis gellwch alw hyn yn *nonsense*, oblegyd mae yr un â dywediad yr Iachawdwr,—'Pwy bynag a fyno fod yn benaf yn eich plith, bydded yn was i chwi.' Nid yw y cenadwyr, er eu bod yn garedig, yn ddifrifol, ac yn ymroddgar, yn gwybod y pethau hyn, ac maent ar unwaith yn cau allan bob peth sydd yn dwyn yr enw Hindw. Ewch i'r Aifft a gwelwch yno ddarnau o feini wedi eu cerfio a'u haddurno yn brydferth, y rhai ydynt yn ymddangos fel pe buasent wedi bod yn rhan o ryw adeilad mawr; ac wrth edrych i mewn i'r rhai hyn, gallwch ddychymmygu pa mor ardderchog oedd yr adeiladwaith. Ewch i India a chwiliwch ddywediadau cyffredin y bobl, a byddwch yn rhyfeddu wrth weled y fath grefydd oruchel mae y grefydd Hindwaidd wedi bod."

"DARN UNDODAIDD SIR ABERTEIFI.

(Parhad o Tud. 60.)

"Yn awr, paham na byddai mwy o gyfarfod a Duw gan Undodiaid y darn hwn? paham na byddent yn galw mwy arno? &c. Ein barn ni yw mai gwneyd gormod o'r dyn y maent, a rhy fach o Dduw. Mae llawer o wir yn yr hen ddywediad, "Os llwyddir i gael Duw o'th gredo, nid hir y bydd heb fyn'd allan o'th bader." Y mae Duw wedi ei gau allan o gredo yr Undodiaid mewn llawer cyssylltiad, ac felly nid yw yn rhyfedd fod eu tuedd mor wan at y pader, a'u bod yn cael mor lleied o flas arno. Nid ydynt hwy yn dal fod llawer o eisiau Duw ar y dyn, hyd yr ydym wedi deall. Nid ydynt yn dal llygredigaeth hollol natur dyn, a'i anallu o'r herwydd i fyw yn santaidd yn ol gorchymmynion Duw, felly nid oes eisiau iddynt fyned at Dduw i ymofyn am

---

* Gangooly. Gwel Hanes ei Fywyd yn yr Ymofynydd, 1863.

waredigaeth. Dim ond galw ar ddyn i gadw gorchymmynion Duw sydd eisiau yn ol eu tyb hwy, heb feddwl am ddim ond ei allu ef ei hun at hyny. Gan nad ydynt yn dal yr annghytundeb sydd wedi myned rhwng dyn a Duw, nid oes un angenrheidrwydd am iddo i ymofyn am gymmod a Duw ac arbediad y gosb, ac felly y mae gweddi yn y cyssylltiad hwn yn cael ei wneyd yn ddiangenrhaid, ac o ganlyniad y sefyllfa annghymmodlawn yn aros, a'r cariad hyfryd ddylai fod mewn dyn at Dduw a'i waith heb ei brofi, na chwaith wedi gweled yr angen am dano. Y syniad a gynnwysir yn y pwnc o weddi yw diffyg dyn a digonolrwydd Duw; ond gan fod diffyg mwyaf dyn yn cael ei wadu yn y darn Undodaidd, ni cheir yma ond ychydig o weddi. Mae yn wir y ceir ganddynt hwy i ddyweyd eu bod yn dal yr angenrheidrwydd am Dduw i ddyn, ond nid ydynt yn dal yr angenrheidrwydd am iachawdwriaeth Duw, yr hon a ddarparwyd ar gyfer sefyllfa druenus a diymadferth dyn, ac felly y cymhelliad mawr i weddi yn cael ei golli. Ond, a gadael nad oes ar ddyn angen am yr iachawdwriaeth yn ol ystyr y Trindodwyr o feddwl, yr ydym yn credu y dylai defosiynau crefyddol yr Undodiaid yn y darn hwn fod yn amlach, pe na byddai ond am bethau tymhorol yn unig.

"Nid yw yr olwg a roddant ar gymmwynasgarwch Duw i ddyn, yn rhoddi cymhelliad mor gryf i ddyn i wasanaethu Duw a'r olwg a rydd y Trindodwyr arno. Nid ydym yn gwybod pa olwg a roddant ar ras a thrugaredd Duw fel eu dadguddir yn yr efengyl, os nad ydynt yn eu golygu fel rhoddion Duw i ddyn i gyfarfod a'i sefyllfa fel gwrthryfelwr truenus. Yr ydym ni yn ceisio addoli Duw am ei ddaioni creadigol a rhagluniaethol yn gystal a hwythau. Ond y mae genym ni hefyd gymhellion llawer cryfach, sef y dadblygion newydd a llawer helaethach o gymmwynasgarwch Duw, i gyfarfod a sefyllfa newydd dyn fel pechadur. Ac felly nid rhyfedd ein bod yn fwy gwresog weithiau yn addoli, ac yn teimlo rhwymedigaeth i wneyd hyny yn amlach, a chyda mwy o arwyddion o gariad. Nid ydym yn gwybod pa fodd y gall yr Undodiaid esbonio holl ofidiau a thrueni y byd yma, a bod dyn, sef yr holl hil ddynol, wedi eu geni i flinder fel yr eheda y wreichionen i fyny, os ant i wadu mai trwy un dyn y daeth pechod i'r byd, ac i'r holl ddynoliaeth fyned trwy hyny yn llygredig. Tebygem ni y byddai son am rywrai wedi osgoi y llygredd oni bai ei fod yn dyfod gyda hwy i'r byd. Nis gellir dyweyd fod plant bach heb, y llygredd, gan mai llef dorcalonus a glywir o'u genau hwy bron yn ddieithriad ar eu dyfodiad i'r byd; ac y mae babanod yn meirw mor aml a neb. Arwyddion pechod yw y pethau hyn, ac nid oes neb yn dyweyd fod y baban wedi pechu, rhaid felly mai pechod y natur ydyw. Yr ydym ni yn addef hyn—yn addef dynoliaeth bechadurus, ac yn gweled hyny yn ddigon o reswm am fod y byd mor helbulus. Ond yr un pryd, yr ydym yn gweled darpariaeth Duw yn rnyned y tu hwnt i'r cwbl. Ac nid ydym ni yn gweled dim sydd yn groes i reswm, na'r un anhawsdra chwaith, i Dduw ddangos ei ddaioni yn y fath ddull rhyfedd tuag at y dyn os oedd yn dewis felly. Pa beth sydd yn groes i reswm i'r hwn a greodd ddynoliaeth lân, i ymuno a'r ddynoliaeth hono wedi iddi fyned yn aflan, er ei gwneyd yn lân drachefn, os oedd yn ewyllysio hyny? A pha anhawsder oedd iddo wneyd y gwaith a wnaeth ar y ddynoliaeth yn y ddynoliaeth, a thrwy y ddynoliaeth, a hyny er ei gwaredu o'i sefyllfa ddinystriol, os oedd yn dewis hyny? Dim ond ewyllysio oedd eisiau i Dduw er gwneyd y cwbl—a chan fod ei gariad yn ddigon mawr, yr oedd yr ewyllys yn barod. Ond gan i ni fyned yn bechaduriaid, a thrwy hyny yn agored i'r fath helbulon; a chan i Dduw weled bod yn dda yn ei anfeidrol gariad drefnu ffordd o waredigaeth, bydd y rhwymedigaethau i'w garu am greu a chynnal yn cael eu taflu i'r cysgod gan y rhwymedigaethau newyddion hyn. Yn hyn y mae cariad mwy, ac yn hyn y mae y cymhellion cryfaf i garu yn ol hefyd. Ai nid hyn yw y rheswm

mawr am oerfelgarwch a difaterwch crefyddol y darn hwn? sef am nad ydynt yn teimlo llawer o'r rhwymedigaathau newyddion hyn yn tanio eu hysbryd. Y maent hwy fel pawb wedi colli eu dechreuad creadigol dedwydd, ac heb gydnabod y wir a'r unig ffordd i ail ddechreu drachefn, ac felly nid oes dim i'w ddysgwyl ond y cyfryw deimlad. Beth bynag, dyna yw ein barn ni.

"Mae y cymhellion i fywyd crefyddol hefyd yn cael eu gwahanu yn y darn hwn, oblegid syniadau hynod yr Undodiaid am *reol barn a buchedd*, sef y Beibl. Ac os ydynt yn cyfeiliornu am unig safon anffaeledig moesoldeb, anhawdd iddynt beidio bod yn ddiffygiol mewn moesoldeb. Dywedwn etto y gallant wneyd cyfiawnder rhyngddynt a'u gilydd mewn pethau gwladol, gan fod rheolau gwladol yn eu dysgu, ond y mae pethau ereill mwy pwysig yn sicr o gael cam. Gan fod llawer o honynt yn dweyd na ddylai rhai llyfrau o'r Beibl ddim bod ynddo, a bod safon moesoldeb rhai darnau o hono islaw chwaeth gyffredin gwlad, ac nad yw ei ysprydoliaeth mewn llawer man ond fel ysprydoliaeth llyfrau da ereill, dymunwn ofyn pa gymmaint o hono yw "Yr holl Ysgrythyrau," y dywed Paul, "sydd wedi ei rhoddi gan ysprydoliaeth Duw, ac sydd fuddiol i athrawiaethau, i argyhoeddi, i geryddu, i hyfforddi mewn cyfiawnder, fel y byddo dyn Duw yn berffaith, wedi ei berffeithio i bob gweithred dda. Am yr holl Hen Destament y dywed Crist, "Oni wrandawant ar Moses a'r proffwydi, ni chredant chwaith pe codai un oddiwrth y meirw." Ac yr ydym yn methu deall paham yr ymgynghora yr Undodiaid â'r Beibl mewn dim os ydyw mor ddiffygiol ag y myn rhai o honynt ei fod. Yr hyn a wneir â dyn a ddaliwyd yn dweyd anwiredd, yw peidio ei goelio pan yn dweyd y gwir; ac os bydd dyn yn aml yn troseddu rheolau moesgarwch cyffredin, collir ymddiried ynddo bron yn mhob peth ond yr hyn a welwn ac y gwyddom ei fod yn iawn. A thuedd i wneyd hyn â'r Beibl sydd yn nysgeidiaeth llawer o'r Undodiaid; a digon tebyg mai hyn y mae rhai o honynt wedi wneyd yn barod, ac mai hyny yw yr achos eu bod mor ddifater am wneyd yn ol y Beibl. Gwell fyddai iddynt wneyd yn ol yr hen air, "At y gyfraith ac at y dystiolaeth," a dal ato am y cwbl. Ac os na wnant felly, anhawdd genym ni gymmeryd eu hesboniad ar un adnod o hono, nac ar un pwnc o athrawiaeth na dyledswydd, gan na allwn gredu fod eu hesboniad o'r Beibl yn well nâg y maent yn credu am y Beibl ei hun.

"Mae y cymhellion i fuchedd dda hefyd yn cael eu gwahanu trwy y rhyddid mawr a ganiatânt. Nid ydym yn deall fod yr Undodiaid yn caniatau mwy o ryddid na dynion ereill i aelodau y *Benefit Club*, nac un gymdeithas arall, a phaham y goddefant gymmaint o hono yn y gymdeithas sydd i fod y fwyaf pur a santaidd? Mae yn anmhossibl i un gymdeithas arall ddal ei thir os na chedwir yn fanwl at ei rheolau; ac y mae mor angenrheidiol i'r troseddwyr eu hunain i ddysgyblaeth y gosp o'r fath a fydd i gael ei gweinyddu arnynt, ag ydyw i'r aelodau ereill, ac i leshad cyffredinol y gymdeithas. Y mae coleddu a niweidio eu hunain fel hyny yn gymhelliad i'r troseddwyr ddiwygio, ac i'r rheolau ereill ddal eu tir. A gall yr Undodiaid benderfynu fod y rhyddid barn a buchedd a ganmolant mor fawr, yn sicr o fod yn niwed i foesoldeb y darn hwn. Ac yr ydym ni yn credu mai nid trwy y pethau a wrthodant fel gwirioneddau, megys y Drindod, aberth Crist fel iawn, personoliaeth yr Yspryd, &c., y daw yr Undodiaid i deimlo eu gwendid a'u gwaeledd, ond trwy y pethau y canmolant gymmaint arnynt fel rhagoriaethau, megys rhyddid a phethau ereill. Pan dybient eu bod yn ddoethion, hwy a aethant yn ffyliaid. Yn y peth yr oeddynt falch o hono, yr oedd Efe yn uwch nâ hwynt.

"Mae y cymhellion i fuchedd dda hefyd yn cael eu gwahanu trwy eu gwahanol dybiau am sefyllfa ddyfodol, yn enwedig am y dull o weinyddu cosp ar yr annuwiol. Esponiant y geiriau Beiblaidd sydd yn egluro y gosp, fel yn golygu dyfodiant; ac

ereill yn dangos y geiriau fel yn golygu cosp am ychydig amser, ond yn darfod yn fuan. Ac y mae rhyw ddull o ymadroddi ganddynt mewn cyssylltiad a hyn, ac hefyd mewn cyssylltiad a chospedigaethau tymhorol, sydd yn peri i lawer annghofio Duw fel penllywodraethwr. Mynant fod Duw yn drugaredd i gyd yn yr ystyr yma, er na fynant fod ynddo y fath drugaredd fel ag i wneyd iawn er mwyn ein hachub yn gyfiawn. Dywedant lawer am gyfiawnder mewn cyssylltiadau ereill, ond trugaredd yw y cwbl pan y mae Duw yn delio â *criminals* ac ysgubion ei lywodraeth. Y mae rheswm yn dweyd na wnelai trugaredd fel yma ddim o'r tro mewn cymdeithasau gwleidyddol heb daflu y cwbl i ddyryswch, a phaham y gwna yn y llywodraeth fwyaf cyfiawn mewn bod? Bydded i ni olygu ein Creawdwr fel Duw y bydysawd neu Dad dynolryw, nid ydym i annghofio ei Undod goruchel mewn un cymmeriad; ac os felly, pa fodd y gall fod yn Dduw cyfiawn ac yn dad tirion yn mhob man a thuag at bawb, os na wna gospi terfysgwyr ei heddwch. Ac os yw yn cospi peth, mae yr egwyddor o Dduw yn cospi yn cael ei haddef ganddynt hwy yn gystal a ninau.

"Felly yn yr holl ystyriaethau ydym wedi enwi, y mae diffygion yr Undodiaid yn deillio o ryw olygiadau a goleddant am Dduw. Duw yn gofyn addoliad gan bawb, Duw yn rhoddi datguddiad o'i ewyllys, Duw yn dysgyblu ei ewyllys, a Duw yn cospi y drygionus. A chan fod eu syniadau mor rhydd ac anmhenderfynol am y pethau hyn, nid oes ganddynt ddigon o gymhellion i fuchedd dda. Rhaid i fuchedd, fel casgliad rhesymegol, gael cynseiliau da cyn y bydd yn gyflawn ei meddwl a chlir ei amcan.

J. E."

PROFWCH BOB PETH.

Yn ein hymchwiliad am y gwirionedd, pa gyfarwyddyd gwell a fynwn ni? Dyna'r cyflwr meddwl mwyaf addas, debygwn, i gael gafael ac i adnabod y gwirionedd. Nid bod yn rhy hygoelus, nac yn rhy barod i wrthod, ond bod yn barod i ddwyn pob peth dan y prawf. Nid credu heb brawf, nid gwrthod heb brawf. Ceir weithiau ambell i ddyn wedi colli yr archwaeth (*sense of taste*) yn gwbl, fel na all wahaniaethu rhwng chwerw a melus; ac ambell i un arall wedi colli ei olygon, fel na all wahaniaethu rhwng nos a dydd; yn gyffelyb cawn ambell i un fel pe byddai yn llwyr wedi colli y *moral sense*, y *verifying faculty*, y gallu i wahaniaethu rhwng gwrthddrychau y meddwl. Nid oes un gosodiad rhy wrthun, neu ry afresymol iddo gredu ei fod yn ei gredu. Mae arno ofn edrych arno rhag iddo ei amheu, ac y mae yn ofni amheu dim mewn perthynas i bethau crefyddol, rhag iddo beryglu ei iechydwriaeth. Nid yw amheuaeth yn beth i'w ddymuno, mae'n wir, etto nid yw amheuaeth onest yn bechod nad pa mor annymunol bynag yw.

> Many have faith enough all thought to scout;
> But few trust God enough to dare to doubt.

Gwir nad oes achos ofni amheu, ond ffolineb yw amheu'n feiddgar; ffolineb yw ymddwyn fel un yn caru y cyfryw gyflwr meddwl. Nid oes modd gwrthod yr amheuaeth os daw; os cauir drws y ffrynt yn ei erbyn, fe ddaw i mewn wedi'n trwy

ddrws y cefn. Gwyneber yr amheuaeth gyda ffydd, a phrofer ef. Fel y dywed y bardd Tennyson :—

Mae mewn amheuaeth onest fwy o ffydd,
Cred fi, na'n hanner holl gredoau'r dydd.

Profi'r ysprydion sydd yn angen arnom. Llefarir wrthym, meddai'r Ysgrythyr, fel wrth rai rhesymol, ac yr ydym ninau i farnu beth a ddywedir. Yn awr, y mae hyny yn golygu fod genym y gallu i farnu a phrofi. Barnu a phrofi yn gyntaf, ac yna derbyn neu wrthod yn ol fel y byddom yn cael pethau. Nid amheu, nid coleddu a charu yspryd amheus. Mae amheuaeth, fel drwgdybiaeth, yn dynodi cyflwr o afiechyd yn y meddwl ; ac fel hwnw, er yn fynych yn anocheladwy, etto yn wastad yn arwydd o gyflwr annymunol ac annedwydd. Gwir y gall dyn fod yn well ar ei ol, yn gadarnach trwy y profiad, trwy yr ymarfer, yr *exercise* a gafodd y meddwl yn yr ymdrech ; fel y cawn y corff yn well weithiau ar ol pwl o glefyd. Nid yw'r naill na'r llall, fodd bynag, yn wrthddrychau i'w dymuno, neu i ymdrechu am danynt. Ffwl y galwn ni'r dyn, ac yn gyfiawn felly, sydd yn ddrwgdybus o bawb a phob peth —sydd yn meddwl mae lleidr yw pob dyn a gyferfydd ar yr heol os bydd yr haul wedi machludo. Yn fynych gellir dodi y cyfryw ddyn i lawr fel dyn drwg ei hunan, fel dyn yn barnu ereill wrth yr hyn yw ei hunan, yn mesur ereill wrth ei lathen ei hunan. Byddwn dda ein hunain, yn fwyn a charuaidd ein hunain, yna tueddir ni i farnu fod ereill yn gyffelyb. Ceisiwn ymwrthod â phob yspryd drwgdybus ac amheugar, a ni a welwn fwy o ddaioni yn y byd. Bydd ein profiad yn fwy hyfryd, daw ein gwybodaeth yn helaethach, a bydd mwy o lewyrch dysgleirdeb gogoniant Duw yn tywynu ar ein llwybrau.

F.

MYFI YW Y DRWS.

Yr oedd dynion ieuainc yn arfer cyfarfod â'u gilydd mewn tref yn Nghymru i weddio Duw. Cynnelid y cwrdd yn yr hwyr ; a chyn bod y cloc yn taro 7 o'r gloch, yr oedd y gweddïwyr oll yn bresenol. Dygwyddodd unwaith i ferch ieuanc basio heibio pan oeddent hwy yn canu mawl. Arosodd yn sydyn i wrando ; a chan feddwl mai cwrdd gweddi cyffredin oedd, ac i fod groesaw i bawb, o bob oedran, i ddyfod iddo, teimlai awydd i fyned i mewn. Gosododd ei llaw ar glicied y drws, gan feddwl nad oedd yno un rhwystr ar ei ffordd i fyned i mewn ; ond er ei syndod, cafodd fod y drws wedi ei gau yn sicr oddifewn. Teimlodd yn mhen ychydig amser yn ofidus iawn ; ac yn fuan, daeth y gofyniad yma i'w meddwl :—"Beth pe buasai hwn yn ddrws y nefoedd, a minau tu allan !"

Aeth adref, ond nis gallasai gysgu y noson hono. Aeth yn fwy gofidus dydd ar ol dydd wrth feddwl y buasai hi o bossibl yn cael ei chau allan o'r nefoedd. Aeth i gwrdd gweddi arall, a mynychai yr addoliad cyhoeddus, yr ysgol gân, a'r ysgol Sul, yn rheolaidd ac amserol am lawer iawn o amser ; ac ar rai prydiau teimlai fod rhyw fath o oleuni niwlog yn tywynu ar ei meddwl wrth glywed y pregethwyr yn pregethu, y gweddïwyr yn gweddio, a'r cantorion yn canu mawl i Dduw â'r yspryd ac â'r deall ; ond nid oedd yn cael gorphwys i'w meddwl, a meddyliai y buasai drws y nefoedd yn cael ei gau yn ei herbyn. Ond ar un prydnawn dydd Sul, wrth ddar-

llen yn ei dosparth, daeth ar draws y geiriau yma o eiddo Iesu Grist yn y ddegfed bennod o efengyl Ioan,—"Myfi yw y drws." Synodd beth, a darllenodd y frawddeg drosodd drachefn a thrachefn yn bwyllog a sobr, a chafodd yn y man yma y drws oedd wedi bod yn hir chwilio am dano, ac yn lled-agored hefyd; aeth i mewn trwyddo, a chafodd y tangnefedd hwnw a addawodd yr Iesu i'w ganlynwyr.

Bobl ieuainc a deiliaid yr ysgol Sul, meddyliwch am y ferch yma, a gwnewch fel y gwnaeth hi, ac yna chwi a deimlwch fel y teimlai hithau.

A. M. T.

FFYDD YN NGHRIST.

Ychydig amser yn ol, pan yn ymweled â rhai o'm cyfeillion, dygwyddodd i mi gael fy ngadael dros ychydig amser yn nghwmniaeth boneddiges oedd yn aros yn y ty, yr hon nid oeddwn wedi ei gweled cyn hyny. Ni wyddai pwy na pheth oeddwn, ond meddyliai mai gweinidog oeddwn, a dechreuodd holi cwestiynau i mi, ac ymddangosai yn awyddus iawn i gael gwybod i ba eglwys y perthynwn iddi. Wedi hir siarad, dywedais wrthi taw gweinidog eglwys Undodaidd oeddwn. Syndod y cyfnewidiad a welais ar ei gwynebpryd pan ddywedais y gair "Undodaidd!" "Oh! fy anwyl Syr," meddai, mewn llais crynedig, "yr ydych yn gamsyniol iawn; cyfeiliornad dychrynllyd ydyw eich cyfundraeth chwi. Nid oes ond un ffordd iechydwriaeth. Oh! fel y carwn eich darbwyllo i feddwl yn iawn am y cyflwr peryglus ydych ynddo. Pe gweddiech, tywysai Duw chwi i'r gwirionedd."

Nis gallaf gofio hanner yr hyn a ddywedodd, ond yr oedd yr oll i'r un perwyl—nad oedd genym ni ddim ffydd yn Nghrist o un gwerth. Ymdrechais ddangos iddi ein bod yn credu yn Nghrist mor gadarn â hithau; ond nid i un pwrpas. Ail-adroddai yr un frawddeg, "Ond nid ydych yn credu ei fod yn Dduw, ac heblaw i chwi gredu hyny, nis gall eich cadw; yr ydych yn amddifad o'r ffydd gadwedigol."

Ar hyn, dychwelodd fy nghyfeillion i'r ystafell, a newidiwyd yr ymadrodd; ond yn mhen ychydig amser wed'yn, pan godais gyda bwriad i ddychwelyd i'm ty, ymddangosai fel pe nas gallasai golli y cyfleusdra i'm hargyhoeddi, a chan fy nghymmeryd wrth fy llaw, tynodd fi i ystafell naill ochr, ac ail-ddechreuodd siarad yn ddwys a difrifol am fy nghyflwr peryglus. A'r dagrau yn ei llygaid, dywedai, "Oh! fy anwyl Syr, digon tebyg na welaf fi ddim o chwi etto, ond nis gallaf oddef y meddylddrych o'ch colledigaeth; da chwi darllenwch eich Beibl drosodd unwaith etto, a gweddiwch ar Dduw i'ch dysgu a rhoddi i chwi ran yn yr Iachawdwr."

Nis gallaswn lai na theimlo tacrineb yr hen foneddiges dda, oblegyd yr oedd yn siarad gyda'r symlrwydd a'r difrifoldeb oedd yn profi eu bod, druan o honi, mewn pryder mawr droswyf. Nid oedd amser yn caniatau y pryd hwnw i esponio rhyw lawer; ac oblegyd hyny, dywed-

ais wrthi pan ar ymadael,—"Fy anwyl foneddiges, a ydyw eich ffydd a'ch ymddiried chwi yn naioni a chariad Duw mor lleied fel ag i ofni y bydd iddo fy nghondemnio i dragwyddol wae o herwydd nas gallaf gredu yn union fel yr ydych chwi yn credu? Yr wyf wedi darllen fy Meibl, ac yn ei ddarllen bob dydd, ac yn gweddio mor ddifrifol ag y medraf am nerth i ddysgu ei holl wirioneddau, ac nis gallaf gael allan ynddo yr athrawiaethau y gosodwch chwi gymmaint o bwys arnynt. Ond beth am hyny? Yr wyf yn credu yn gydwybodol eich bod chwi yn gyfeiliornus, yr un fath ag yr ydych chwithau yn credu fy mod i; ond nis gallaf ddych'mygu am foment fod Duw y nef yn eich caru yn llai oblegyd hyny. Nis gallasai fod genyf mor ychydig o ymddiried yn fy Nuw, a buasai arnaf gywilydd mynwesu y fath syniad annheilwng am dano am gymmaint a moment."

Ac felly y terfynodd yr ymddyddan rhyngom; ond yr wyf wedi meddwl lawer gwaith am daerineb ymadrodd yr hen foneddiges anwyl. Yr ydym ni yr Undodiaid yn cyfarfod â phobl yn fynych iawn yn mhob dinas, tref, a phentref sydd yn proffesu credu yr un peth a hithau. Nid yw llawer o bregethwyr sydd yn ystyried eu hunain yn uniongred yn petruso dweyd mai deiliaid llid a digofaint Duw ydym ac a fyddwn; a rhyfedd mor daer y rhybuddiant eu gwrandawyr rhag cymmeryd eu hudo gan ein hathrawiaethau afiach a pheryglus, ac haerant nas gall neb fod yn gadwedig oddieithr iddynt fabwysiadu eu ffydd hwy.

Yn awr, nid yw o bwys mawr yn ein golwg ni fod y mwyafrif o Gristionogion proffesedig yn gwadu yr enw Cristionogion i ni. Nid hwy fydd i'n barnu; nid iddynt hwy ydym yn gyfrifol am ein daliadau, ac ni fydd i'w cred hwy yn nghylch ein hiechydwriaeth i wneyd yr un gwahaniaeth gyda golwg ar ein cadwedigaeth; ond y mae o bwys mawr i ni ymdrechu cael allan beth ddywed yr Athraw mawr yn nghylch ffydd a dysgyblaeth iddo Ef, ac i draethu hyny yn eglur a diamwys. Dylem fod yn awyddus ac yn weithgar i symmud ymaith y dyb gyfeiliornus a chableddus y bydd i'r Tad mawr nefol i yru ymaeth neb o'i blant i dragwyddol wae, chwaethach y rhai sydd wedi gwneyd pob ymdrech i ddysgu gan Iesu Grist, ac wedi cadw ei orchymmynion mor bell ag y deallant hwy, ond yn methu cydolygu â'r lluaws gyda golwg ar athrawiaethau a ystyrir yn hanfodol ganddynt hwy er iechydwriaeth.

Yr ydym yn dal ein ffydd ein hunain, am y credwn mai gwirionedd yr Efengyl ydyw; yr ydym yn ei phrisio ac yn cydnabod mai ein dyledswydd yw gwneyd ein goreu i argyhoeddi ereill o'i gwerth. Ond fel Undodiaid, nid ydym yn amheu dim yn nghylch dyogelwch y sawl sydd yn gwahaniaethu oddiwrthym m wn barn; credwn eu bod yn wrthddrychau trugaredd a chariad Duw, fel ninau. Gellir gosod allan ein ffydd yn amlwg mewn ychydig eiriau. Edrychwn ar yr Iesu fel dysgawdwr anfonedig oddiwrth Dduw i tod yn Iachawdwr hyd eithaf y ddaear. Dysg Efe i ddynion wirioneddau Duw mewn perthynas i'r bywyd presenol a'i ddyledswyddau, ac hefyd yn nghylch y bywyd dyfodol, ei obeithion a'i ofnau. Y mae yn ein taer gymhell i

ddychwelyd at Dduw, yr hwn a ddatguddia fel ein Tad Nefol bob amser yn barod i'n derbyn. Rhybuddia ni yn nghylch canlyniadau pechod, a rhodda i ni bob annogaeth i ddyfod i ryddid gogoneddus meibion Duw. Credwn ei addysgiadau, credwn ynddo Ef a theimlwn fod y ffydd yma yn ffydd gadwedigol. Mae yn ein cadw oddiwrth bechod. Nid yw yn ein perfteithio ar unwaith, ond yn raddol, effeithia gyfnewidiad er gwell ar y galon a'r bywyd, a phair i ni garu daioni, a chasáu drygioni; ceidw ni trwy holl ystod ein bywyd, a pherffeithia ei waith ef ynom. Cydnabyddwn ef fel ein Harglwydd a'n Meistr, "Awdwr a Pherffeithydd ein ffydd."

Mae y ffydd a ddysg Efe yn berffaith; wedi ei ddatguddio mewn geiriau, ond yn llawer mwy amlwg yn ei fywyd; ac os ydym yn ei dderbyn, ac os oes genym ffydd ynddi, y mae yn ffydd gadwedigol.

Yn awr, gwelwn nad oes dim a fyno hynyna o angenrheidrwydd â natur Crist. Gall dynion ddal syniadau gwahanol iawn yn ei gylch Ef, ac etto gall pawb ei garu yr un fath, a'i gredu a dilyn ei ôl Ef, a dyma beth a ystyriwn ni yn ffydd gadwedigol. Creda ein brodyr yn yr Eglwysi poblogaidd ei fod "y gwir Dduw." Addolant ef, gweddiant arno, a meddyliant am dano fel Duw wedi ymgnawdoli, a disgyn i barthau isaf y ddaear. Etto, pa un ai yw yr opiniynau yma yn gywir, ynte annghywir, os ydynt yn ei garu yn wirioneddol, ac yn cadw ei orchymynion, Efe a'u cydnabydda fel ei ddysgyblion, a bydd i'w ffydd ynddo Ef, ac nid eu hopiniynau yn ei gylch Ef, i'w cadw. Y mae y golygiadau sydd yn cael eu dal yn gyffredin yn ein plith ni yn wahanol iawn, ond credwn oll ei fod yn Fab Duw. Credwn ei eiriau goleu pan yn dywedyd "A hyn yw'r bywyd tragywyddol, iddynt dy adnabod di yr unig wir Dduw, a'r hwn a anfonaist ti, Iesu Grist." Credwn hefyd y geiriau yma o'i eiddo: "Myfi a'r Tad un ydym," ond gan iddo weddio ar ei Dad ar ran ei holl ganlynwyr, "Fel y byddont oll yn un megis yr ydym ni yn un," nis gallwn ddeall wrth yr undeb yma ond yn unig undeb meddwl, bwriad, yspryd, ac amcan. Credwn ei fod wedi cael ei ddyrchafu goruwch pawb oll yn ngreadigaeth Duw; ond ni feiddiwn weddio arno, oblegyd credwn mai y Tad yw unig wrthddrych addoliad dwyfol. Dywed yr Iesu wrth ei ddysgyblion pan yn siarad am yr amser y buasai yn cael ei gymmeryd oddiwrthynt, ac y buasent hwy mewn perygl, "Yn y dydd hwnw nis gofynwch ddim yn fy enw i." Credwn yn drwyadl yr hyn a ddywedodd yr Iesu mewn attebiad i'r ysgrifenydd a ofynodd iddo "Pa un yw'r gorchymyn cyntaf o'r cwbl?" a mawr y carem ac y llawenychem, pe rhoddai pawb fwy o wrandawiad i'r Iesu, a llai i ddysgawdwyr y dyddiau diweddaf yma. "A'r Iesu a attebodd iddo, y cyntaf o'r holl orchymynion yw, Clyw, O Israel, yr Arglwydd dy Dduw, un Arglwydd yw; a châr yr Arglwydd dy Dduw a'th holl galon, &c.; hwn yw'r gorchymyn cyntaf, a'r ail sydd gyffelyb iddo: câr dy gymydog fel ti dy hun. Nid oes orchymyn arall mwy na'r rhai hyn."

Mae y syniadau a goleddir yn ein heglwysi yn gwahaniaethu oddiwrth eu gilydd, fel y dywedwyd yn barod, gyda golwg ar natur Crist, ond yr ydym oll yn cydolygu, nad beth yw ei allu a'i ogoniant, eu

bod wedi deilliaw, neu wedi cael eu rhoddi iddo gan Dduw. Yr ydym wedi chwilio yr Ysgrythyrau, a chredwn mai hyn yw y gwirionedd yn ei gylch; ond nid ydym yn ei osod allan fel yr "unig ffydd gadwedigol." Dywedwn ei fod yn bosibl i ddyn ddal y syniadau yma, heb fod ddim gwell oblegid hyny, yr un fath ag y mae yn ddichonadwy i ddyn ddal athrawiaethau yr eglwysi poblogaidd, heb fod ddim gwell o'u plegid. Mae yn ddichonadwy i ni fod yn gamsyniol gyda golwg ar y pethau yma; ond os ydym yn ei garu Ef fel ein Hiachawdwr, os ydym yn eistedd wrth ei draed, yn cymmeryd ei Efengyl at ein calon, ac yn ymdrechu dyfod yn nes at y Tad trwyddo Ef, nid oes yr un pryder yn ein meddwl y bydd iddo ein diarddel yn y dydd a ddaw; ond credwn y dywed wrthym mewn llais swynol, nefol, "Da was, da a ffyddlon * * dos i mewn i lawenydd dy Arglwydd."

Y gwahaniaeth mawr ac anghymodadwy rhyngom ni a'r sawl sydd yn gwadu yr enw Cristionogion i ni yw hyn. Dywedant hwy "yr ydych chwi yr Undodiaid yn cyfeiliorni yn nghylch Crist, ac oblegid hyny nid ydych yn Gristionogion, nac yn gadwedig; dywedwn ninau o'r tu arall, "yr ydym ni yn credu eich bod chwi yn gamsyniol, gyda golwg ar yr athrawiaeth ydych yn ei ddal yn nghylch Crist, ond pa mor gamsynol bynag ydych, os ydych yn eu garu Ef, ac yn cadw ei orchymmynion, y mae yr iachawdwriaeth yn eiddo i chwi fel ninau. Barned pob dyn pa un ai y syniad Undodaidd neu Drindodaidd yw y mwyaf rhesymol, cywir, a christionogol.

Gyda golwg ar wirionedd athrawiaethol, credwn yn wir ein bod yn ei ddal, ac oblegid hyny gosodwn Ef allan, ac yr ydym yn awyddus i argyhoeddi ereill o hono, ond gyda golwg ar "ffydd gadwedigol," nid ydym yn ei hawlio yn unig i ni ein hunain, ond i bawb; ein bod oll yn mhob eglwys, ac yn mhob sect yn eiddo Crist, os ydym yn ei garu yr un modd; a bod credinwyr gonest a didwyll yn mhob eglwys yr un mor ddiogel, os yw ei wirionedd a'i esiampl ef yn dylanwadu i'r fath raddau, ag i'w gwneuthur yn greaduriaid newydd ynddo. Credwn ar yr un pryd, fod y syniadau a fabwysiadwn ni am Dduw, ei gariad, a'i dadoldeb, ei ymdriniadau â ni yn y byd hwn a'r hwn a ddaw, ac am Iesu Grist, ei Efengyl a'r gobeithion a ddalia allan ynddi, yn rhagori yn anngh ydmarol ar y syniadau Trindodaidd. Credwn eu bod yn fwy cydweddol â rheswm a datguddiad, ond rhaid yw tynu tua'r terfyn, mae ein hysgrif wedi myned yn faith, maddeued y darllenydd i ni. Pan yn meddwl yn bwyllog am sectyddiaeth a phenboethni y credöau, mae y geiriau a ganlyn yn dyfod yn nerthol i'n meddwl, a mawr y carem i ddynion yn gyffredin feddwl a myfyrio mwy arnynt: "Os ymddiried neb ynddo ei hun ei fod ef yn eiddo Crist, meddylied hyn drachefn o hono ei hun, megis ag y mae efe yn eiddo Crist, felly ein bod ninau hefyd yn eiddo Crist." Y geiriau yma etto fyddant sicrwydd bendigedig i bob un o honom; "Gras fyddo gyda phawb sydd yn caru ein Harglwydd Iesu Grist mewn purdeb."

EDRYCH I FYNY.

Aeth bachgenyn bychan i'r mor gyda'i dad i ddysgu bod yn forwr. Dywedodd ei dad wrtho un diwrnod,—"Dere yma 'machgen i, ni elli ddysgu bod yn forwr byth os na ddysgu yn gyntaf peth i ddringo; gad i mi weled os gelli ddringo i fyny i'r hwylbren yma." Nid hir y bu y bachgen ystwyth cyn dringo i fyny yn dra uchel; ond wedi cyrhaedd y top, a gweled y pellder oedd rhyngddo a bwrdd y llong, dechreuodd ofni a chrynu, a gwaeddodd allan,—"O fy nhad, mi syrthiaf i lawr; beth gaf fi wneuthur?"

"Edrych i fyny, edrych i fyny, fy machgen," ebe ei dad wrtho. "Os edrychi i lawr yma, byddi yn sicr o ddotio; ond os edrychi i fyny at y fflag ar dop yr hwylbren, deui i lawr gyda dyogelwch."

Cododd y bachgenyn ei olygon i fyny fel y gorchymynai ei dad, a chyrhaeddodd fwrdd y llong yn ddyogel.

Yn awr, beth ddylem ni wneuthur pan ydym yn cael ein gwasgu i'r llawr gan ofidiau a thrallodion, gwasgfeuon a thristwch y byd, neu pan y mae rhyw demtasiwn yn peri i ni grynu ac arswydo, a'n calonau i guro yn gyflymach, gyflymach? Beth ddylem wneyd pan yn galaru oblegyd colli ein hanwyliaid, a phan y mae cymylau a thywyllwch yn ein hamgylchynu? Edrych i fyny, edrych i fyny i'r nefoedd at yr Hwn sydd yn llywio y byd, a gofyn am gymhorth gan yr Hollalluog i feddianu ein heneidiau mewn tawelwch; yna ni a deimlwn ein traed megys ar Graig yr Oesoedd; nyni a deimlwn mai ein tad yw Duw, ac a ymgyssurwn dan yr ystyriaeth fod pob peth yn cael ei drefnu yn y modd goreu ganddo Ef. Am hyny, edrych i fyny, gyfaill, ac ni bydd achos i ti ofni yr un niwed.

Lamp Cariad.

BEDDAU.

Y mae'r Angeu yn ein dwyn ni drachefn at ein cyfeillion. Mor dangnefeddus yw trigfa y rhai a breswyliant bentrefi gwyrddion a dinasoedd poblog y meirw. Nid oes angen arnynt yr un feddyginiaeth rhag gofal, yr un arfau rhag tynghedfen. Nid oes yr un haul boreuol yn tywynu trwy eu ffenestri cauedig, ac yn eu deffroi, ac ni wna hyd y dydd mawr diweddaf. Dichon weithiau i belydryn crwydrol ymgripian i mewn trwy furiau magwyrol hen gofadail fyddo wedi ei esgeuluso,—ymwelydd dyeithr, yr hwn nid erys yn hir. Ac yna yr hunant oll, nid wedi eu cerfio mewn marmor gan law dyn, ond wedi eu ffurfio yn lludw gan law Duw. Ni ddaw neb atynt yn awr i'w dal gerfydd ei llaw, canys nid oes bellach angen arnynt swynion cyfeillach daearol; nid oes angen arnynt am danom ni, nad pa faint mae arnom ni angen

am danynt hwy. Maint yn ddystaw aros ein dyfodiad. O mor hyfryd ydyw y tymhor hwnw mewn bywyd pan y gallwn ddywedyd yn iaith yr ysgrythyr,—"Y mae gwlith dy ieuenctyd i ti." Ond mae'r angeu yn casglu llawer o'r blodau yma. Dysgwn yn raddol i beidio dychrynu, canys y mae'n cario yn ei freichiau bêr flagur ein gobeithion daearol. O ydyw, mae'r angeu yn ein dwyn drachefn at ein cyfeillion! Hwythau ydynt yn aros am danom ni, canys y maent wedi ein blaenu, a safant yn ymyl y bedd i'n groesawu; ac ar eu gwynebpryd, gwênau y serch a wisgent pan ar y ddaear, ond etto serch mwy caruaidd, mwy dysglaer, mwy ysprydol. Da y dywedodd un, nad yw beddau ond olion traed angylion.—*Longfellow.*

Marwgofion.

Ebrill 12, David Lloyd, mab Evan Lloyd, Plasbach, Ciliau Ayron, yn 26 oed. Yr oedd yn ddyn ieuanc tawel a chyfeillgar, ac o rodiad dichlynaidd. Teimla ardal Trefilan ei bod wedi cael colled mawr ar ei ol fel ysgolfeistr yn y lle. Gadawodd dad, brodyr, a chwiorydd mewn galar dwfn ar ei ol. Yr oedd wedi ymuno â'r Eglwys Sefydledig.

Mai 7, Thomas Howells, saer, Ystrad, yn 85 oed. Yr oedd yn ddyn tawel, ac yn un a berchid yn fawr yn ei gymmydogaeth. Profai y dyrfa luosog ddaeth yn nghyd ar ddydd ei angladd i ddangos eu parch iddo, a'u cydymdeimlad â'i blant, fod iddo gylch eang o gyfeillion. Bu yn aelod am lawer o flynyddau yn Rhydygwin, ac yr oedd yn un o'r aelodau hynaf yn bresenol. Pregethodd W. Rees, Rhydygwin, oddiwrth 2 Cor. v. 1.

Mai 7, yn 74 oed, Mary Jones, gweddw Thomas Jones, Ivy, Felinfach, Ystrad. Dyoddefodd hir nychdod gan glwyf yr ysgyfaint, a bu farw mor dawel a baban yn myned i gysgu. Yr oedd gyda'r aelod hynaf yn Rhydygwin, ac ni bu iddi un amser anharddu ei phroffes. Teimlad cyfeillgar i'r pen oedd ynddi. Plant ysgol Mr. Rees a'u basgedi bychain oedd prif addurn ei thy. Cynghorai hwynt yn eu hymrafaelion fel mam, â geiriau llym os byddai eisiau. Anrhegid hi yn y Gwyliau, ac yn aml gan y plant, â llaeth, ymenyn, blawd ceirch, ac yn wir peth cig hefyd. Casglodd tyrfa luosog yn nghyd ddiwrnod ei chladdedigaeth. Ar ol pregeth gan y Parch. John Davies, Alltyplaca, hebryngwyd hi i ganol ei thylwyth i orwedd yn hen fynwent Ystrad. Nid wyf yn meddwl i mi ganfod cymmaint o blant mewn angladd erioed: tyn dithau, ddarllenydd, y casgliad a fynot o'r ffaith.—*Ap Gryffydd.*

Mai 9, William Davies, Llanmanal, yn 40 oed, ar ol hir gystudd. Bu yn afiach fwy nâ 4 blynedd. Goddefodd boen dirfawr yn ei aelodau gan y gewynwst am amser hir, heb rwgnach dim yn erbyn trefn Duw. Dywedai yn fynych, er cymmaint ei boen, ei fod yn credu fod Duw, trwy gystuddiau a thrallodion, yn gystal a iechyd a chyssuron, yn gweithredu mewn cariad a pherffaith ddoethineb, ac y byddent yn y diwedd i ateb y dybenion da eu bwriadwyd. Bu yn aelod am flynyddau o eglwys Caeronen. Claddwyd ef yn Rhydygwin, yn ol ei ddewisiad ei hun. Cymmerwyd rhan yn y gwasanaeth gan y Parch. J. Davies, Alltyplaca, a phregethodd gweinidog y lle oddiwrth Esay xl, 8, 9.

Mai 15, yn 80 oed, Jane Williams, gweddw Job Williams, Cross Inn, merch i'r parchus Thomas Williams, o Ystrad, a nith i'r diweddar Dr. Jones, Gravesend, yr hwn a fu yn achlysurol yn gymhorth mawr iddi mewn cyfyngderau. Ni welodd lawer o wenau y byd trwy ei hoes. Bu Miss Boyle, llysferch Dr. Jones, mor dda a rhoddi swm fechan o arian yn flynyddol iddi, digon i'w chadw rhag angen. Byddai yn dda pe gwnai cyfoethogion ddilyn haelioni y foneddiges hon tuag at eu cydddynion sydd mewn angen. Pregethodd W. Rees, Rhydygwin, oddiwrth Iago i. 22. Claddwyd yn mynwent Ystrad.

Mai 24, yn 10 mis oed, Evan, baban Mr. a Mrs, Morgan, Llwyndrysi, Llanybyther. Claddwyd ef y Mawrth canlynol yn Capelygroes. Pregethodd T. T. ar yr achlysur.

Mai 25, yn 73 oed, Anne Evans, Ffinnantfach, Llanwenog. Claddwyd hi y Mercher canlynol yn mynwent y plwyf. Yn y ty, pregethodd T. T.

Mai 30, yn 6 mlwydd oed, Sarah, merch Mr. a Mrs. Evans, Pantmarchog, Dihewid. Hefyd ar Fehefin yr 16eg, yn 18 mis oed, ei chwaer, Mary Anne. Claddwyd y ddwy yn Capelygroes, y blaenaf ar yr 2il, a'r olaf ar y 19eg o Fehefin. Gweinyddodd T. T. ar yr achlysur.

Mai 30, yn 87 oed, Jonathan Daniel, Cilrhiwe. Claddwyd ef y Sul canlynol yn Llandyssul. Cyn cychwyn o'r ty, pregethodd T. T., Pantydefaid.

Mehefin 7, yn 66 oed, Howell Howells, Esgeringlis, ger Llanwnen. Claddwyd ef y Mawrth canlynol yn Llanwnen. Gweinyddodd T. T. yn y ty cyn cychwyn.

Mehefin 11, yn 3 mis oed, Hannah, baban Mr. a Mrs. Morgan, Llettyllwynde, Llanybyther. Claddwyd hi y dydd Gwener canlynol yn Capelygroes. Gweinyddodd y Parch. T. T. ar yr achlysur.

Mehefin 13, yn Nhroedyrhiw, Crugyreryr, Talgareg, tua 60 oed, Hannah Timothy, ar ol cystudd maith, yr hwn a ddyoddefodd gyda mawr amynedd. Gwelsai lawer o helbul a thlodi wrth fagu ei plant, yn fwy felly trwy ei bod wedi claddu ei phriod pan oeddynt yn ieuainc. Pregethwyd yn Nghapelyfadfa gan weinidog y lle oddiwrth ei thestyn dewisedig, Jer. xlix. 2. Yr oedd Hannah Timothy yn un o ffyddloniaid yr achos, ac ni fu ei lle yn yr Ysgol Sul, tra y gallodd, un amser yn wâg. Gellid gyda chyfiawnder ei rhesu yn mhlith y rhai y dywedir am danynt,

"Er bod yn dlodion yn y byd,
Mae ganddynt olud hawddgar."

Claddwyd hi yn mynwent Pantydefaid.

Mehefin 24, yn 66 oed, Frances Jones, anwyl briod Thomas Jones, saer, Clynyrynys, Talygareg. Claddwyd hi yn mynwent Llandyssul. Yn y ty cyn cychwyn, pregethodd y Parch. W. Thomas, ar Luc x. 42, i dyrfa luosog. Bydded i'w phriod a'i phlant galarus fodd i ymgyssuro ar ol mam mor anwyl.

Hanesion.

NOTTAIS.

Cynnaliwyd Gwledd De yn y lle uchod, y dydd cyntaf o'r mis diweddaf. Cyfranogwyd o honi gan 340 o hen ac ieuainc. Yr amcan mewn golwg wrth ei chynnal oedd cael arian i dalu am Harmonium hardd a phur gostus at wasanaeth yr achos; a da genym ddweyd i'r swm gyrhaedd rhyw ychydig dros ben yr hyn oedd yn ofynol. Wedi gwneyd cyfiawnder â'r te a'r bara brith, cawd gwledd feddyliol yn y capel, dan lywyddiaeth hen weinidog parchus y lle, a chafodd pawb eu cyflawn foddloni. Deallwn fod boneddiges ieuanc yn y lle wedi ymgymmeryd â'r gorchwyl o chwareu yr offeryn swynol yn yr addoliad cyhoeddus.

Y CRIBIN.

Cadwyd Cylchwyl yr Ysgolion Sabbothol a berthynant i'r Cribin, Alltyplacca, Capel y Groes, Caeronen, Ciliau, Capelybryn, a Rhydygwin, ar yr 11eg o Fehefin. Dechreuwyd y cyfarfod am ddeg y boreu gan R. C. Jones, Gweinidog y lle, ac adroddodd Ysgol y lle y bennod olaf o 1 Timotheus, ac holwyd gan R. C. Jones. Ar ei hol adroddodd Ysgol Rhydygwin y ddwy bennod flaenaf o 1 Cor., a holwyd hi gan W. Rees. Yna adroddodd Ysgol Alltyplacca Act. 8, a holwyd hi gan ei Gweinidog. Yn olaf yn y boreu adroddodd Ysgol Ciliau y bennod olaf o Efengyl Ioan, a holwyd hi gan J. Davies, Alltyplacca. Yna awd i ymofyn ychydig o luniaeth i'r corff. Yr oedd y meddwl wedi cael yn debyg gymmaint ag a allai ei gynnwys, a galwai am ychydig o orphwysfa. Ychydig hefyd a gafodd. Am hanner awr wedi dau dechreuwyd y cyfarfod drachefn gan J. Davies, Alltyplacca, ac adroddodd Ysgol Capel-y-bryn 1 Pedr, xvii, ac holwyd hi gan J. Davies, Alltyplacca. Yn nesaf adroddodd Ysgol Capelygroes, ac holwyd hi gan T. Thomas, Pantydefaid. Yn olaf adroddodd Ysgol Caeronen Matt. 4, ac holwyd hi gan R. C. Jones, Cribin. Adroddwyd amryw bennodau yn dda gan blant a dynion ieuainc, ac y maent yn haeddu eu canmol. Yr oedd yr adrodd a'r canu, yn gystal â'r atebion pwrpasol a roddid i'r gofyniadau yn dangos fod yr Ysgolion wedi bod yn llafurus. Cyn ymadael cafwyd anerchiadau byr i'r pwrpas gan T. Thomas, ac R. C. Jones. Llafuria ein hysgolion o dan anfantais fawr, o herwydd fod llawer o'n capeli heb un llyfrgell ynddynt. Mae llawer dyn ieuanc myfyrgar a galluog o feddwl, heb fodd i brynu llyfrau na chyfleusdra i'w cael. Byddai yn dda pe gellid cael rhai llyfrau defnyddiol o hyd cyrhaedd i athrawon ein hysgolion. Diau y gellid trwy ymdrech a chydweithrediad ffurfio rhyw gynllun i gyflenwi y diffyg hwn; a'r sawl a wnelo hyn a wna wasanaeth nid bychan i'r achos. Byddai Cymdeithas Lyfrau yn mhob Capel yn dra defnyddiol. Gellid gwneyd hyn ar raddfa fechan, heb lawer o draul. Terfynaf yn awr, gan obeithio y cymmer rhyw un galluog y pwnc mewn llaw. A gwnewch chwithau, Mr. Gol., adael y crynodeb byr hwn o hanes ein hysgolion ymddangos yn eich rhifyn nesaf.

Gohebiaeth.

LLENYDDIAETH YR ENWAD.

Syr,—Mae hanes ein Henwad yn cyflym fyned i golli. Dylem wneuthur rhywbeth ar unwaith i ddyogelu yr hyn sydd yn aros o hono. Gwnaeth Mr. Evans, Gellionen, wasanaeth da yn rhifyn Gorphenaf. Gwneled ein Gweinidogion ereill yn gyffelyb. A fydd Mr. Evans, gystal â rhoddi cyfres mor gyflawn ag y medra o'r llyfrau a'r pregethau a gyhoeddwyd gan Josiah Rees? Mawr y carwn weled llyfrgell yn cael ei sefydlu i gynnwys yr oll a ellir gael gafael arnynt o lyfrau yr enwad. Cyhoeddwyd llawer o honynt yn y ganrif o'r blaen nad oes gymmaint â'u henwau yn aros; ac y mae rhai pregethau wedi eu cyhoeddi yn y ganrif bresenol nad oes nemawr yn gwybod am danynt. Gwneler ymdrech i gael y rhai hyn at eu gilydd. O bossibl nad anhawdd fyddai cael cyfres gyflawn o lyfrau y gymdeithas. O ie, beth sydd wedi dod o lyfrau y Gymdeithas? A oes ganddi rywbeth ar werth yn awr? Beth yw'r llyfrau sydd ganddi ar werth?

Idwal.

Darnau Byrion.

Canmoliaeth.—Dywedodd Dr. Channing mai y ganmoliaeth fwyaf ddymunol a roddwyd iddo ef erioed oed gan ferch fechan, yr hon, wedi bod yn gwrando arno yn anerch cynnulleidfa o blant yn agos yr un oedran â hi ei hunan, a ddywedodd wrth ei mam, "Yr oeddwn yn deall pob gair a ddywedai."

Gin i'r Plant.—Peidiwch rhoddi Gin i'r plant er mwyn eu tawelu. Y mae yn sicr o'u niweidio yn fawr. Gweithreda fel gwenwyn arnynt, a chrea y fath awydd arnynt am wirodydd ag a fydd yn debyg o'u gwneuthur yn feddwon wedi y tyfont i fyny. Pan fyddont iach, gadewch iddynt yfed dwfr, dwfr glan gloyw, a chymmaint ag a fydd angen arnynt.

Llaeth.—Mae llaeth yn cynnwys yr holl elfenau angenrheidiol i feithrin y corff.—yr unig fwyd dyogel i blentyn dan flwydd oed. Dylai pob plentyn gael llawer o hono nes byddo yn wyth oed, neu bydd mewn perygl o'r *Rickets*, ac o esgyrn tyner. Cofier, nid llaeth yw hufen. Mae un o brif elfenau llaeth yn absenol o'r hufen. Nychai plentyn pe na chaffai ddim ond hufen. Mae hufen fel ymenyn, lard, a phob math o *fats* yn gwresogi'r corff, ond nid yw yn adeiladu'r corff. Mae llaeth glas neu scim yn adeiladu'r corff; llaeth newydd yn adeiladu ac yn gwresogi.

Corff Dyn.—Y mae yn pwyso 154 pwys, a dylai gynnwys,

111 pwys o ddwfr—90 pwys o'r dwfr yma yn *Oxygen* a'r gweddill yn *Hydrogen*.
12 ,, *Fat* (corff-wresogydd).
24½ ,, *Protein* (sydd yn ffurfio cnawd).
5¾ ,, *Phosphate of Lime*.
¾ ,, *Ashes* (Lludw).

Gwrthod Help.—Un Sul yn ddiweddar (adroddwyd yr ystori yn Llanwrtyd, haf 1872), yr oedd dau bregethwr yn sir Aberteifi, yn marchogaeth at eu cyhoeddiad ar bob o geffyl, pan sylwyd fod pedol un o'r ceffylau yn rhydd. Cyn hir daethant at efail gof. Cafwyd gafael yn y gof yn rhywle a sicrhawyd y bedol. Gwrthododd y gof gymmeryd tal am y job, ac aeth y ddau bregethwr yn mlaen ar eu taith, wedi eu mawr foddloni gan ymddygiad caredig y gof. Yr oedd yr un a dderbyniodd y gymmwynas yn neillduol o hyawdl yn nadganiad ei foddlonrwydd. Cyn hir, fodd bynag, ni ddywedir pa fodd, daeth i wybod mai Undodwr oedd y gof. Yna trodd y gath yn y badell, newidiodd ei gan, soniodd am dori'r Sabboth, dywedodd *na chawsai yr hen Sosin fyned i'r nefoedd ar ei gefn ef*. Aeth yn ol bob cam, a thaflodd ryw nifer o geiniogau at ddrws ty y gof, gan ysgafnhau ei gydwybod felly o lwyth annymunol iawn.

Chwaeth y Cymry.—Pa beth allwn ni ddysgwyl i chwaeth a gwybodaeth y bobl gyffredin fod pan y cawn un o wyr y teitlau, y Parch. J. James, B.D., yn ysgrifenu fel yma?—"Yr ydym yn anturio dyweyd ein bod yn ystyried Williams, o Bantycelyn, yn un o'r beirdd a'r llenorion blaenaf yn yr holl fyd." Dyma offeiriad gwir ddysgedig.

Chineaid Cymreig.—Peth rhyfedd yw ffasiwn. Gorfyddir pob peth ymostwng i ffasiwn. Y mae hyd y nod natur yn gorfod ufuddhau i ffasiwn, ac aberthu iechyd a chyssur bywyd iddo. Yn China, *troed fach* yw'r ffasiwn i'r *ladies*, a throed fach a fynant, gan nad beth fyddo'r canlyniad. Llawer dyfais a ddefnyddiant er rhwystro y droed i dyfu. Trwy hyny anallwogant eu hunain i gerdded. Nid yw yn foneddigaidd i'r *ladies* allu cerdded yn China. Mae ffasiwn yn dduwies yr un mor nerthol ei dylanwad gyda ninau gartref, os nid mwy nerthol. ac yn mhlith pob dosparth. Helpia'r *stays ladies* y dosparth uchaf i wneuthur eu hunain yn fwy tebyg i gacwn nag i fodau dynol. Rhwystrant weithrediad y *lungs*; dygant degwch a rhosyn au darfodedigaeth i'r wynebpryd, ac aberthant fywyd ar allor ffasiwn. Yn mhlith ereill—dosparth mor annghyffredin o ffol â'r llall, rhwymir plant bychain â chadachau, fel pe y bwriedid eu mogi a'u gwaradu yn eu mabandod; ac y mae llawer o honynt yn cael eu gwaredu felly. Tybia ereill eu bod yn gwella natur wrth wasgu esgyrn yr ymhenydd at eu gilydd. Beth ond llofruddiaeth yw peth fel hyn? Organ *delicate* yw y *lungs* a'r ymhenydd hefyd, ac y mae eu gwasgu yn eu niweidio yn fawr. Paham y mae cymmaint o blant bychain yn marw? Un rheswm yw nad yw rhieni yn rhoddi chwareu teg iddynt i fyw.

Y CYFOETHOG A'R TLAWD.

Beth ydyw cyfoeth? Cyfoeth ydyw beth bynag y gallo dyn ei sicrhau oddiwrth natur er ei fwyniant a'i gynnaliaeth. Llafur ydyw yr hyn sydd yn ei sicrhau. Doethineb sydd yn cynnilo ffrwyth llafur, a thrwy hyny yn cynnyrchu cyfalaf (*capital*), a hwnw drachefn sydd yn helpio i helaethu gweithrediadau llafur, a thrwy hyny yn creu cyfalaf mwy. Y cyfoethogion a wneir i fyny o rai wedi etifeddu meddianau oddiwrth ereill; rhai wedi eu cael trwy ryw ddygwydd, a rhai wedi eu sicrhau iddynt eu hunain. Y tlodion yn gyffelyb, a wneir i fyny o rai wedi etifeddu tlodi oddiwrth ereill, rhai wedi myned yn dlawd trwy ddygwydd, a rhai wedi dwyn tlodi arnynt eu hunain. Y dull mwyaf cyffredin o gynnyrchu tlodi yw trwy seguryd. Y dyn na fyn weithio nid yw yn cynnyrchu a sicrhau cyfoeth; mae o ganlyniad yn dlawd. Neu mae'n gwario mewn ffyrdd ffol yr ennill mae yn sicrhau, ac felly mae'n parhau yn dlawd, yn gyffelyb fel pe byddai heb weithio. Ni ellir gwella'r tlodi sydd yn dyfod trwy seguryd, ond fel y mae wedi ei wella er dechreu'r byd, sef trwy ddiwydrwydd. A'r tlodi a ddaw trwy wastraff ni ellir ei symmud ond trwy gynnildeb.

Mor fynych y mae cwsg un nos yn cyfnewid ein teimladau tuag at y rhai a wahaniaethant oddiwrthym! Mor wyliadwrus, gan hyny, y dylem fod ar ol y profiad hwn, yn ein cyhuddiadau brysiog o ymddygiad ac opiniynau ereill.

Barddoniaeth.

OS BYDD GWR MARW, A FYDD EFE BYW DRACHEFN?

Oes, f'enaid, oes, mae llety gwell i'w gael,
Mae'n Duw, mae'n tyner Dad yn rhoddwr hael;
Er myn'd am enyd bach i lwch y llawr,
Cawn godi, cawn, i fyny gyda gwawr
Yr adgyfodiad ddydd, wrth beraidd sain
Yr udgorn; byddwn oll ar fryniau cain—
Gwlad yr addewid, gwlad o laeth a mel,
Gwlad ffrwythlawn gwynfyd, gwlad i'r hon ni ddel
Na chur na gofid; gwlad dragwyddol haf,
A gwlad na dderfydd byth mo'i blodeu braf.

Gwlad gwir bleserau a gwir fwyniant yw,
Gwlad heb farwolaeth, gwlad dros fyth i fyw,
Gwlad lle cawn oll ymuno'n deulu glan
I seinio'n beraidd glod ein Duw ar gan.

T.

HUNAN-ADNABYDDIAETH.

Er mwyn gwybod dy ddiffygion,
Paid ymddiried it' dy hun,
Ond gwna ddefnydd o'th gyfeillion
A'th elynion bob yr un.

BUDDUGOLIATH Y COR MAWR YN LLUNDAIN, DYDD IAU, GORPH. Y 10fed, 1873.

(*Pennillion byrfyfyr a gyfansoddwyd ar draeth Llanstephan dranoeth.*)

Fe ddaeth y newydd etto,—Digon gwir,
Mae'r Cymry wedi cario,—Digon gwir;
Mae llawryf buddugoliaeth
Yn chwyfio trwy y dalaeth;
Hwre! i'r Cymry odiaeth,
Hwy gawsant y flaenoriaeth,—Digon gwir.

Swn melus pur gerddoriaeth,—Digon gwir,
Sy'n llifo'n gefnfor helaeth,—Digon gwir,
Drwy gyrau gwlad y Cymry,
Mae achos llawenychu,
'R Côr Mawr sy' wedi trechu,
A chael ei anrhydeddu,—Digon gwir.

Cantorion glew hen Walia,—Pwy a wâd,
A synant holl Ewropa,—Pwy a wâd?
Awn fry i gopar Wyddfa,
A'i seiniwn oll Hosana!
Mewn hwyl i feibion Gwalia,—
'R Côr Mawr a fu y trecha',—Pwy a wâd?

Eiddil Cynon.

JENKIN HOWELL, AGERDD-ARGRAFFYDD, ABERDAR.

AT EIN DARLLENWYR.

GWELLIANT GWALL.—YMOFYNYDD Mehefin, tud. 84, llinell 12, darllener "Sefyllfa *anwaraidd* yn rhoddi ffordd," &c.

Anfoner y taliadau mewn *P. O. Order* at "Rev. W. JAMES, B.A., 47, Gadlys Road, Aberdare."

TELERAU :—Un copi, 3c.; gyda'r *post*, 3½.; ar dri chopi a rhagor, telir y cludiad.

☞ Pob Archebion a Gohebiaethau i'w hanfon yn gyfeiriedig :—

The Editor of "Yr Ymofynydd,"
Mount Pleasant Garden,
Aberdare.

James Davies Springgarden

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—

YR

YMOFYNYDD.

RHYDDID, CARIAD, A GWIRIONEDD.

CYFRES NEWYDD] MEDI, 1873. [RHIF 7.

CYNNWYSIAD.

Ymchwydd yr Iorddonen: Pregeth gan George Dawson, M.A., Birmingham .. 145
Yn yr Aifft .. 151
Gweddi y Diacon .. 154
Calfiniaeth ac Arminiaeth .. 155
Amser a'i Bwysigrwydd .. 156
Y ffordd i gysgu yn dda .. 159
Haelioni yn ei berthynas â'r Weinidogaeth .. 160
Nodiadau Gwleidyddol .. 163
Marwgofion .. 164
Hanesion .. 164
Congl yr Holiedydd .. 165
Gohebiaethau .. 166
Darnau Byrion .. 166
Barddoniaeth .. 168

Pris Tair Ceiniog.

ABERDAR:
ARGRAFFWYD GAN JENKIN HOWELL, 16, COMMERCIAL PLACE.